Astudiaethau Achos Gorllewin Cymru Iachach

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Rhaglen 7: Creu Cysylltiadau i Bawb

Gweithredoedd/Straeon Caredigrwydd:
https://www.connecttokindness.wales/stories/

Prosiectau Pontio'r Cenedlaethau

Prosiect Plannu Penparcau -Ceredigion

Mae Hwb Penparcau wedi gwneud yr ardd y tu allan i'r fynedfa yn llecyn newydd hyfryd sy'n orlawn o flodau a llysiau dan reolaeth y gymuned leol. Bu diddordeb enfawr gan y gymuned ac mae llawer o breswylwyr lleol wedi helpu i droi'r darn o dir yn llecyn llawn blodau a llysiau cynaliadwy i'r gymuned gael mwynhau. Mae cymunedau wedi bod yn adeiladu potiau plannu mawr ar gyfer plannu bwydydd cynaliadwy ar strydoedd y gymuned drwy waith caled a rhoddion aelodau'r gymuned, busnesau lleol, a'r awdurdod lleol. Mae eraill hefyd wedi cyfrannu pethau a neilltuo amser i'r prosiect er mwyn helpu'r gymuned leol i greu ardal well i'r gymuned. Mae preswylwyr oedrannus nad ydynt wedi gallu cynnal a chadw eu gerddi hefyd wedi cael cynnig cyfle i ddefnyddio rhan o'u gerddi fel llain lysiau. Y gymuned leol fydd yn cynnal a chadw'r gerddi wedyn, a bydd y preswylwyr yn cael rhywfaint o'r cynnyrch. Mae gwirfoddolwyr cymunedol wedi dweud cymaint y maent wedi mwynhau ymgymryd â'r her gymunedol ac ar yr un pryd, mynd i'r afael â thlodi bwyd a chreu lle brafiach i'r gymuned fyw ynddo.

Cyn

Ar ÔL/ Yn Ystod